

## PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R.E. Godfrey, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

### CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

### YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorwyr G.M. Ball ac I.R. Buckley.

### COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2025 fel cofnod cywir.

### DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda – Cefnogaeth i Ofalwyr Di-dâl ym Mro Morgannwg. Roedd natur y buddiant yn Bersonol gan fod y Cynghorydd Lloyd-Selby yn ofalwr di-dâl i berthynas oedrannus. Arhosodd y Cynghorydd Lloyd-Selby yn y cyfarfod am yr eitem.

### CEFNOGAETH I OFALWYR DI-DÂL YM MRO MORGANNWG (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Ganlyniadau Gwasanaeth a Diogelu yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a'r cymorth presennol

sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ym Mro Morgannwg a dolen i Adroddiad Gofalwyr Di-dâl Iechyd a Gofal Cymdeithasol Blynyddol 2024 (fel adroddiad SWAY atodiedig).

Wrth gyfeirio at yr Adroddiad Blynyddol yr oedd hyperddolen iddo, rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor sut roedd y Cyngor yn bodloni pedair blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, sef 'Nodi a gwerthfawrogi Gofalwyr Di-dâl', 'Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth', 'Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu', a 'Chefnogi Gofalwyr Di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle' drwy fentrau amrywiol.

Roedd gweithio gyda phartneriaid ar ôl troed rhanbarthol yn galluogi rhannu gwybodaeth, profiad ac adnoddau. Roedd hyn yn galluogi'r Cyngor i weithio gyda'i gilydd i wella'r cymorth hanfodol i'r rhai a gyflawnodd rôl ofalu yn ei gymunedau. Roedd seibiant yn parhau'n un o'r prif geisiadau a wnaed gan ofalwyr am gymorth ac roedd y Cyngor wedi gallu bodloni ystod eang o anghenion drwy barhau i sicrhau bod cyllid ar gael. Anogwyd ymarferwyr i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddod o hyd i atebion i fodloni anghenion unigol gofalwyr di-dâl.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, nododd y Cynghorydd Cave, yn aml, byddai angen unigolyn i ymgysylltu â gwasanaethau yn cynyddu dros amser wrth i iechyd y person a oedd yn derbyn gofal ddirywio a hefyd bod iechyd meddwl gofalwyr yr un mor bwysig ag iechyd yr unigolyn a oedd angen cymorth arno. Nododd y Cynghorydd Cave hefyd fod yr adroddiad yn nodi galwad ar ymarferwyr i fod yn arloesol yn weithredol ac mai seibiant oedd y cais a dderbyniwyd amlaf, ac felly gofynnodd a allai'r swyddog roi unrhyw enghreifftiau o arloesedd a oedd yn digwydd yn ogystal ag a oedd y cyllid perthnasol ar gael i ateb y galw am seibiant. Gofynnodd y Cynghorydd Cave hefyd a oedd y swyddogion yn gallu cadarnhau'r darlun cyffredinol o ran iechyd meddwl gofalwyr. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol dros Ganlyniadau Gwasanaeth a Diogelu fod seibiant bob amser yn cael ei groesawu a'i gymryd yn aml gan ofalwyr di-dâl, fodd bynnag, roedd seibiant yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol a gallai fod yn ystod o gynigion gwahanol yn seiliedig ar yr amgylchiadau unigol. Felly gellid cynnig seibiant ar bwynt o argyfwng neu mewn amgylchiadau llai brys. O ran ymholiad y Cynghorydd Cave ynglŷn ag arloesedd, rhoddodd y swyddog wybod bod yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn cydnabod bod yr angen am arloesi yn flaenoriaeth mewn perthynas â'r wybodaeth yr oedd yn ei choladu a bod gan ganolfan gofalwyr di-dâl y Cyngor ystod werthfawr o wybodaeth ar gael.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Cave at Siop Un Stop y Cyngor a gofynnodd a oedd y mathau o geisiadau a oedd yn cael eu codi gan ofalwyr di-dâl yn cael eu cofnodi a hefyd sut roedd y Cyngor yn ateb y ceisiadau hynny. Fel arall, roedd pryder bod adroddiad fel y'i cyflwynwyd yn wybodaeth flanced yn unig heb dystiolaeth. Adleisiodd Cadeirydd y Pwyllgor sylwadau'r Cynghorydd Cave a nododd hefyd fod ansawdd y gofal a oedd yn cael ei roi hefyd yn bwysig ac roedd angen ei adlewyrchu yn yr adroddiad. Mewn ymateb, dywedodd y swyddog fod canolfan gofalwyr di-dâl y Cyngor yn datgan cymorth wedi'i gategoreiddio i ofalwyr di-dâl fanteisio arno a hefyd bod y categorïau cymorth yn cael eu coladu drwy'r Awdurdod Lleol.

Yna cyfeiriodd Is-gadeirydd y Pwyllgor at y cyfeiriad yn yr adroddiad a gyflwynwyd at adroddiad yr Ombwdsmon a oedd yn cynnwys manylion canlyniadau arolwg yr

Ombwdsmon a oedd yn nodi "anghysondeb ar nodi gofalwyr" felly, gofynnodd y Cyngorydd beth oedd y Cyngor yn ei wneud yn y maes penodol hwn. Mewn ymateb, cydnabu'r Rheolwr Gweithredol dros Ganlyniadau Gwasanaeth a Diogelu fod arferion adrodd gwahanol ar waith ledled Cymru. Yn wreiddiol, roedd Cyngor Bro Morgannwg yn tanadrodd ar ei ymdrechion a'i lwyddiant ynghylch nodi gofalwyr, felly ers y fersiwn ddiwethaf o'r adroddiad roedd y swyddogion wedi rhoi mwy o bwyslais ar ymdrechion i nodi gofalwyr di-dâl.

Yna mynegodd y Cyngorydd Lloyd-Selby bryderon ynglŷn â'r cyfeiriad yn yr adroddiad at y ffaith mai dyma'r flwyddyn olaf o gyllid a oedd ar gael ar gyfer seibiant byrdymor a gofynnodd am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r pwynt hwnnw yn ogystal â gwybodaeth yn ymwneud â ffrydiau cyllid yn y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Ganlyniadau Gwasanaeth a Diogelu fod y Cyngor ar hyn o bryd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer seibiant byrdymor drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a drwy gymorth gan sefydliadau'r Trydydd Sector. Roedd cadarnhad wedi cael ei dderbyn y byddai'r ffrwd gyllid bresennol yn dod i ben, fodd bynnag, roedd y Cyngor hefyd wedi cael gwybod bod cronfa wahanol ar gael ond byddai'r cylch gwaith y gellid defnyddio'r cyllid ar ei gyfer yn cael ei wella. Felly, ymrwymwyd cyllid ar hyn o bryd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yn ogystal ag ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. Fodd bynnag, nid oedd ffrydiau cyllid yn glir ar hyn o bryd o 2027 ymlaen.

Yna gofynnodd y Cyngorydd Collins pa mor dda oedd cymorth i ofalwyr di-dâl y Cyngor yn cael ei gyhoeddi oherwydd bod llawer o ofalwyr nad oeddent hyd yn oed yn sylweddoli y byddent yn cael eu categoreiddio fel gofalwr di-dâl. Dywedodd y swyddog mai un o ymrwymadau'r Cyngor oedd adeiladu cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth a gwneud yn siŵr y gallai unigolyn uniaethu fel gofalwr di-dâl. Rhoddwyd ymdrechion sylweddol ar fwletinau newyddion, drwy bractisau meddygon teulu, yn ogystal â drwy sefydliadau'r Trydydd Sector. Roedd y Cyngor yn dymuno cyrraedd y gynulleidfa ehangaf y gallai yn gyffredinol, ond byddai hefyd yn teilwra cyfathrebu ar gategoriâu penodol o ofalwyr fel y rhaglenni gofalwyr ifanc drwy swyddogion cyswllt ysgolion. Roedd y Cyngor bob amser yn ehangu ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella cyhoeddi'r gwasanaethau a oedd ar gael.

Manteisiodd y Rheolwr Gweithredol hefyd ar y cyfle i ddweud ei bod yn bwysig i'r Cyngor fod yn ofalus wrth ddefnyddio iaith mewn perthynas ag iechyd meddwl ar gyfer gofalwyr di-dâl a chadarnhaodd y gallai unigolyn geisio cymorth iechyd meddwl drwy ei feddyg teulu ar unrhyw adeg. Roedd asesiad iechyd meddwl yn wahanol iawn i drafod gofal neu gyfrifoldebau gofalu unigolyn ei hun. Pryd bynnag yr oedd asesiad gofalwr di-dâl yn digwydd, roedd anghenion lles ac iechyd meddwl person bob amser yn cael eu hystyried. Yn ogystal, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion os oedd gan unrhyw berson bryder am iechyd meddwl unigolyn yna gallai ddeialu 112 a phwyso 2 i ofyn am gymorth. Roedd ymdrechion y Cyngor i ddarparu seibiant i ofalwyr di-dâl pan fo angen yn un o lawer o ddulliau o gefnogi gofalwyr di-dâl i aros mor iach â phosibl yn eu rhinwedd eu hunain.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd fod y rhagolygon mewn perthynas â chymorth i ofalwyr di-dâl yn llawer gwell nag yr oeddent wedi bod ddeng mlynedd yn ôl ac felly roedd

camau mawr wedi'u cymryd. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol gan y Cadeirydd ynghylch a oedd gofalwyr di-dâl yn cael gwybod am y cymorth a'r gwasanaethau llai y gellid eu cyrchu yn ystod eu hasesiad cychwynnol, dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Ganlyniadau Gwasanaeth Diogelu y byddai arferion asesu yn dechrau ar unwaith ac na fyddai rhai gwasanaethau cymorth bob amser yn cael eu cyflawni drwy'r Awdurdod Lleol ond y byddai'r holl opsiynau a oedd yn briodol i'r unigolyn yn cael eu rhoi.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mae'r Pwyllgor wedi hynny

#### ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Gymorth i Ofalwyr Di-dâl a'r gwaith a wnaed i gefnogi gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc ym Mro Morgannwg.
- (2) Nodi dyletswyddau'r Cyngor a'i bartneriaid o ran darparu gwasanaethau i Ofalwyr Di-dâl o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- (3) Y dylid nodi sut y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn bodloni'r Blaenoriaethau Gweinidogol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a gwaith rhanbarthol Bwrdd Gofalwyr Di-dâl Caerdydd a Bro Morgannwg.
- (4) Bod y Pwyllgor yn derbyn Adroddiad pellach ar gymorth i Ofalwyr Di-dâl ym Mro Morgannwg.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, sicrhau bod Aelodau'n parhau i oruchwylio'r swyddogaeth bwysig a gyflawnir gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn effeithiol.
- (2) Bod Aelodau Sgriwtini yn ymwybodol o'r dyletswyddau a amlinellir mewn deddfwriaeth.
- (3) Bod Aelodau Sgriwtini yn cael gwybod am y Blaenoriaethau Gweinidogol a osodwyd ar gyfer gofalwyr a'r gwaith rhanbarthol sy'n digwydd ar gyfer gofalwyr di-dâl ac yn hwyluso cefnogaeth gan yr Aelod Arweiniol dros Ofalwyr.
- (4) Sicrhau bod Aelodau'n parhau i oruchwylio'r swyddogaeth bwysig yn effeithiol yn flynyddol.

#### ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2024/25 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad Chwarter 3 (Ch3) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Rhagfyr 2024 wrth gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol at y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol ar gyfer 2024/25, fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor, a nododd y canlyniadau cadarnhaol a oedd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn ddiweddar.

Roedd y Cyfarwyddwr yn falch o adrodd bod y statws CMG cyffredinol ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynnyddol yn Wyrdd a bod yr adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o waith cadarnhaol a oedd yn digwydd ym meysydd Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Hamdden. Cyflwynwyd gwobr i'r Tîm Byw'n Iach yn cydnabod ymdrechion rhagorol i gynnwys pobl ag anableddau mewn gweithgareddau, ac roedd cyfleoedd mwy cynhwysol hefyd wedi'u sefydlu gan y tîm Chwaraeon a Chwarae i fenywod a merched.

Ar ôl i'r Swyddog gyflwyno'r adroddiad, nododd Is-gadeirydd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r statws Coch, Melyn, Gwyrdd (CMG) ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, mai ychydig iawn o eitemau a oedd wedi'u labelu'n Goch a bod yr eitemau hynny a labelwyd yn Goch mewn perthynas â materion traws-Gyfarwyddiaeth. Roedd yr Is-gadeirydd yn dymuno trosglwyddo ei ddiolch i'r swyddogion perthnasol am gynhyrchu'r adroddiad clir.

Yna cododd y Cynghorydd Lloyd-Selby ddau bwynt mewn perthynas â chydymffurfiaeth â dysgu ymwybyddiaeth diogelu i staff yn ogystal â chyfeiriad at fethiant darparwyr fel pryder a gofynnodd a fyddai lefelau o ddysgu ymwybyddiaeth diogelu yn cael eu cyflawni yn chwarter olaf y flwyddyn ac a oedd methiant darparwyr yn realiti neu'n bryder ataliol yn unig.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod modiwl ar gael i'r holl staff drwy ei borth dysgu mewnol, i-Dev mewn perthynas â chydymffurfiaeth â dysgu ymwybyddiaeth diogelu. Roedd modiwl dysgu electronig yn haws i staff swyddfa gael mynediad ato na'r rhai nad oeddent yn gweithio mewn swyddfa ac roedd rheolwyr yn targedu staff nad oeddent yn gweithio mewn swyddfa i wella lefelau cydymffurfiaeth. Nododd y Cyfarwyddwr hefyd fod ganddo dîm diogelu profiadol iawn y gofynnwyd iddo ymgymryd â hyfforddiant diogelu sylfaenol iawn ac felly roedd gofyniad i hyfforddiant aml-lefel gael ei gyflwyno fel y bo'n briodol. Byddai pob Cyfarwyddwr yn monitro cydymffurfiaeth â diogelu ar gyfer eu gwasanaethau unigol. Mewn perthynas â methiant darparwyr, nododd y Cyfarwyddwr nad oedd ganddo unrhyw ddarparwyr ym Mro Morgannwg a oedd yn methu ar hyn o bryd ond roedd cau cartref gofal bob amser yn bryder i'w osgoi. Roedd y farchnad wedi newid yn sylweddol dros gyfnod o ddwy flynedd ac felly roedd rhai risgiau dros gynaliadwyedd i ddarparwyr. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw anawsterau a brofwyd cyn belled â phosibl.

Yna trosglwyddodd y Cynghorydd Wilson ei longyfarchiadau i'r Tîm Byw'n Iach mewn perthynas â'i wobwr ddiweddar a nododd fod newid enfawr wedi bod tuag at fesurau ataliol i osgoi unigolion yn gorfod mynd i gartref gofal. Roedd hwn yn waith gwerthfawr ac effeithiol.

Canmolodd y Cyngorydd Stallard y swyddogion hefyd am fformat a manylion yr adroddiad a nododd y byddai'r cyllid mewn perthynas â staff gofal yn defnyddio beiciau a cherbydau trydan yn dod i ben ym mis Mawrth 2025, ac felly gofynnodd a fyddai'r cyllid hwn yn parhau ar gael. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Diogelu fod cyllid Ffyniant Gyffredin yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ddarparu 23 o gerbydau trydan i gefnogi staff i ddarparu gofal cartref. Roedd arfarniad opsiynau wedi'i gynnal ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a fyddai'n cynnwys trosglwyddo asedau i ddarparwyr gofal cartref lle roedd y cynllun peilot wedi bod yn llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gadarnhad ar gyllid ar hyn o bryd.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau wedi'u codi, mae'r Pwyllgor wedi hynny

#### ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Ch3 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25, fel y'u haliniwyd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio, ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad, fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni nodau llesiant Cymru.